# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llantarnam Lodge**

**Cartref Gofal Llantarnam Lodge**
**Pentre Lane**
**Llantarnam**
**Cwmbrân**
**NP44 3AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Llantarnam Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Llantarnam Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Rhagfyr 2023 a 5 Rhagfyr 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cynnes a glân sydd mewn cyflwr da sy'n cynnwys ardal awyr agored bleserus. Mae'r bobl yn cael cymorth cyson gan weithwyr gofal sy'n deall dewisiadau'r bobl ac sy'n anelu at ddarparu cymorth mewn ffordd ystyrlon. Ymgynghorir â'r bobl am benderfyniadau am y canlyniadau personol y maent am eu cyflawni. Mae'r cynlluniau personol o ansawdd da ac yn cofnodi canlyniadau'r bobl, eu dewisiadau a'r drefn ddyddiol sydd orau ganddynt. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau. Mae gweithiwr gweithgareddau newydd wedi cael ei gyflogi gan y gwasanaeth ac ymgynghorir â'r bobl am y math o weithgareddau yr hoffent gael eu cynnig. Mae dirprwy reolwr wedi cael ei recriwtio ers yr arolygiad diwethaf ac mae hyn wedi helpu i wella'r trefniadau goruchwylio gan y tîm rheoli. Caiff amrywiaeth o archwiliadau eu cwblhau a chaiff unrhyw batrymau a thueddiadau yn y wybodaeth eu hystyried. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n briodol, ac mae'r darparwr yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu a gwella. Ni chaiff yr asiantaethau priodol bob amser eu hysbysu am atgyfeiriadau diogelu, ac mae angen gwella hyn. Mae angen rhoi sylw i anghysondebau wrth oruchwylio galluedd unigolion a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried y gwelliannau a wnaed yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Ymgynghorir â'r bobl a chânt gymaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd â phosibl. Caiff hoff arferion, dewisiadau a nodau'r bobl eu deall ac mae'r cymorth a ddarperir yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r gweithwyr gofal yn garedig, yn ofalgar ac yn hawdd mynd atynt. Caiff adnodd dibyniaeth ei gwblhau sy'n helpu'r darparwr i nodi faint o staff sydd eu hangen ar bob shifft. Mae'r niferoedd staffio yn adlewyrchu'r rhai a nodir yn yr adnodd dibyniaeth. Caiff lefelau dibyniaeth eu gwerthuso gan y staff yn rheolaidd. Mae'r darparwr yn deall manteision helpu'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ysgogol ac ymgynghorir â'r bobl am y math o weithgareddau y maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt. Mae rhai gweithgareddau ar gael ar sail un-i-un ac ar sail grŵp, sy'n gwella llesiant y bobl. Recriwtiwyd gweithiwr gweithgareddau newydd a bwriedir datblygu'r rôl hon ymhellach. Gwelsom y rhaglen o weithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer mis Rhagfyr 2023 a oedd yn cynnwys amrywiaeth dda, yn ôl yr olwg.

Mae prosesau gwell ar waith ar gyfer goruchwylio trefniadau rheoli'r gwasanaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae dirprwy reolwr newydd wedi cael ei gyflogi. Mae archwiliadau mewn perthynas ag amrywiaeth eang o gymorth ar waith a chaiff unrhyw batrymau neu dueddiadau eu hystyried. Mae'r gwasanaeth wedi nodi rhai gwelliannau i'r cofnodion gofal dyddiol a rhoddwyd y gwelliannau hyn ar waith. Mae'r darparwr yn cydnabod bod y mater hwn yn fater parhaus a bod angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth ysgrifenedig yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu oedolion ac mae polisi diogelu cyfredol ar gael iddynt sy'n unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau ac yn monitro cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Pan fo angen, caiff tîm diogelu'r awdurdod lleol ei hysbysu am y rhan fwyaf o ddigwyddiadau y mae angen ei hysbysu amdanynt. Fodd bynnag, nodwyd rhai atgyfeiriadau diogelu gennym nad oeddent wedi cael eu cyflwyno. Cafodd hyn ei ddatrys yn ddi-oed yn ystod yr arolygiad. Mae angen gwella'r trefniadau goruchwylio mewn perthynas â galluedd y bobl a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd ar waith. Mae hyn oherwydd bod cyfyngiadau wedi'u rhoi ar ryddid rai o'r bobl, er mwyn eu cadw'n ddiogel, heb wneud cais am yr awdurdodiadau priodol neu lle mae'r awdurdodiadau wedi dod i ben.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas sy'n diwallu eu hanghenion. Gall y bobl ddewis treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol neu'n breifat. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn gartrefol ac yn groesawgar. Mae'r ystafelloedd gwely yn adlewyrchu hunaniaeth y bobl ac yn amlwg yn cynrychioli dewisiadau'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i waith cynnal a chadw ac adnewyddu parhaus a chaiff gwelliannau gofynnol eu nodi a'u cwblhau'n brydlon. Mae gardd bleserus a diogel ar gael i'r bobl. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Mae'r drws ffrynt yn ddiogel a dim ond ar ôl

cadarnhau manylion adnabod unigolion a'r rheswm dros eu hymweliad y cânt ddod i mewn i'r adeilad.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon eu byd, a chânt eu cefnogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd â phosibl. Gwelsom fod y staff yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd garedig a gofalgar a dywedodd y staff wrthym eu bod yn anelu at ddarparu cymorth wedi'i bersonoli. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o anghenion a dewisiadau'r unigolion ac maent yn trin y bobl ag urddas a pharch. Ymgynghorir â'r bobl am weithgareddau a gwelsom fod yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yn cynnwys rhai a ddewiswyd gan y bobl. Cawsom wybod am y cynlluniau i ddatblygu rôl y gweithiwr gweithgareddau ymhellach. Ymgynghorir â'r bobl am yr opsiynau o ran bwydlenni a chaiff bwydlen ei llunio ar gyfer cyfnodau pedair wythnos. Mae dewisiadau ar gael mewn perthynas â'r opsiynau ar gyfer prydau bwyd dyddiol a'r arferion ar gyfer prydau bwyd. Mae'r cynlluniau personol yn gynhwysfawr ac yn fanwl ac yn arwain y staff yn effeithiol, gan eu galluogi i roi cymorth priodol. Caiff y canlyniadau y mae'r bobl am eu cyflawni eu cofnodi a rhoddir cymorth i helpu'r bobl i gyflawni eu nodau. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau gwella'r ddogfennaeth gofal dyddiol, ond mae angen gwneud gwelliannau parhaus er mwyn i'r gwasanaeth gofnodi mewn ffordd fwy cynhwysfawr fod y gofal a'r cymorth a gofnodir yn y cynlluniau personol yn cael eu rhoi. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru pan gaiff newidiadau eu nodi. Mae'r adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol. Dywedodd un unigolyn wrthym *“the staff are friendly and caring”.* Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“X feels safe, the staff are excellent”.*

Mae'r bobl yn cael cymorth priodol sy'n eu galluogi i gadw mor iach â phosibl.
Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth briodol o'r angen i gefnogi'r bobl i gadw'n iach. Caiff trafodaethau a gynhelir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu dogfennu a chaiff eu hargymhellion eu dilyn. Pan fydd anghenion y bobl yn newid, mae'r gwasanaeth yn dogfennu'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod iechyd corfforol ac emosiynol y bobl yn cael ei fonitro'n briodol.

Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau clir a thrwy gymryd camau cyflym pan fo angen. Mae polisi diogelu ar gael ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant diogelu priodol. Mae'r staff yn dogfennu damweiniau a digwyddiadau yn briodol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y tîm rheoli yn delio â digwyddiadau a allai effeithio ar lesiant y bobl yn brydlon ac mewn ffordd briodol. Caiff asesiadau risg manwl a chynhwysfawr eu defnyddio i reoli risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl.

Mae trefniadau goruchwylio ar waith ar gyfer y systemau meddyginiaeth. Mae polisi meddyginiaeth priodol ar waith ac mae'r staff yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel, a defnyddir system cofnodion rhoi meddyginiaeth electronig (E-MAR). Caiff archwiliadau meddyginiaeth misol eu cwblhau sy'n ystyried effeithiolrwydd y trefniadau rheoli meddyginiaeth sydd ar waith ac yn nodi lle mae angen gwneud gwelliannau.

## Yr Amgylchedd

Mae cynllun y gwasanaeth yn helpu i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar ddau lawr ac mae systemau bysellbad ar waith er mwyn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn gyfeillgar, yn gartrefol ac yn groesawgar ac mae'r brif fynedfa yn ddiogel. Gofynnwyd i ni gadarnhau ein manylion adnabod a'r rheswm dros ein hymweliad cyn i ni allu mynd i mewn. Mae digon o le i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd mewn ardaloedd cymunedol ac yn breifat ac mae'r bobl yn cael eu hannog i ddewis ble yr hoffent dreulio eu hamser. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn adlewyrchu eu chwaeth a'u diddordebau. Mae ardal awyr agored bleserus ar gael i'r bobl ei defnyddio.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u rheoli. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd a lle caiff materion eu nodi, ymdrinnir â nhw'n briodol. Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau y rhoddir gwybod am faterion cynnal a chadw ac yr ymdrinnir â nhw'n brydlon. Gwneir buddsoddiadau parhaus er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn gyfforddus a'i fod yn diwallu anghenion y bobl. Mae gan yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng a chânt eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen. Caiff y cynlluniau hyn eu cadw mewn ffeil ar wahân ac mae'n hawdd cael gafael arnynt os bydd eu hangen mewn argyfwng. Cynhelir gwiriadau diogelwch trydan a nwy. Mae asesiad risg tân cyfredol ar waith, a chaiff ymarferion tân eu cofnodi ar ffurf ysgrifenedig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddir gwybodaeth i'r bobl sy'n eu helpu i ddeall y math o gymorth sydd ar gael. Caiff datganiad o ddiben ei lunio sy'n nodi'r cymorth y gall y gwasanaeth ei ddarparu. Caiff y datganiad o ddiben ei adolygu'n rheolaidd, ac anfonir y fersiwn ddiweddaraf i AGC fel mater o drefn. Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r cymorth a roddir i'r bobl.

Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n briodol. Mae systemau effeithiol ar waith er mwyn helpu i reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Caiff amrywiaeth eang o archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, ochr yn ochr â meysydd y gallai'r gwasanaeth eu datblygu ymhellach. Caiff archwiliadau cynhwysfawr eu cwblhau ac mae'r ystyriaeth a roddir i batrymau a thueddiadau mewn gwybodaeth archwilio yn helpu'r gwasanaeth i leihau risgiau i'r bobl sy'n byw yno. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y gwasanaeth ac mae'n llunio adroddiadau manwl ar ansawdd y gofal sy'n helpu i nodi meysydd i'w datblygu ac i lywio gwelliannau. Mae'r adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff yn helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad y gwasanaeth. Mae cyfarfodydd rheoli rheolaidd yn cael eu cynnal lle trafodir cynnydd mewn perthynas â chamau a nodwyd i ddatblygu'r gwasanaeth. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu harchwilio'n rheolaidd.

Ni chaiff tîm diogelu'r awdurdod lleol bob amser ei hysbysu am faterion diogelu. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr, a aeth i'r afael â hyn ar unwaith. Mae trefniadau goruchwylio effeithiol ar gyfer digwyddiadau diogelu yn fater pwysig ac mae angen i'r gwasanaeth wella'r trefniadau goruchwylio yn hyn o beth. Nid oes gan rai o'r bobl y galluedd i ddeall ac i wneud penderfyniadau hyddysg am risgiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau galluedd bob amser yn cael eu cwblhau ar gyfer yr unigolion hyn. Er bod camau diogelu wedi cael eu rhoi ar waith i helpu i gadw'r bobl yn ddiogel, mae'r prosesau mewn perthynas â cheisiadau awdurdodi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn y gwasanaeth yn anghyson. Roedd awdurdodiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid rhai o'r bobl wedi dod i ben, ac nid oedd y gwasanaeth wedi gwneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad mewn modd amserol. Ni ddylid cyfyngu ar ryddid y bobl heb sicrhau bod y prosesau priodol ar waith. Dywedwyd wrthym fod y tîm rheoli wedi blaenoriaethu hyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan weithwyr gofal sydd wedi'u recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol. Mae ffeiliau personél y staff yn cynnwys gwybodaeth gyson gan

gynnwys hanes cyflogaeth llawn a geirdaon. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal cyn iddynt ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant gorfodol fel y nodir yn y Datganiad o Ddiben yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae hyfforddiant gloywi ar gael ac mae hyn yn cael ei oruchwylio. Cynhelir sesiynau goruchwylio yn unol â'r amserlen ofynnol. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion priodol i ddangos pa aelodau o'r staff sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi adborth cadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym *“It’s one of the best places I have worked”.* Dywedodd un arall wrthym *“it’s a happy place to work”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 26 | Ni chafodd yr asiantaethau priodol eu hysbysu am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelu. | Newydd |
| 31 | Mae angen gwella'r trefniadau goruchwylio sydd ar waith mewn perthynas â galluedd y bobl, penderfyniadau a wneir er lles pennaf a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. | Newydd |
| 80 | Er bod yr adolygiad o ansawdd y gofal o dan Reoliad 80 yn cael ei gwblhau bob chwe mis, nid yw'r adolygiad yn ystyried canlyniadau archwiliadau rheolaidd a gynhelir gan y gwasanaeth fel mater o drefn. Nid yw'r archwiliadau bob amser yn ystyried unrhyw batrymau neu dueddiadau a nodwyd yn y wybodaeth a gesglir, ac felly nid ydynt yn dangos yn llawn sut y caiff risgiau eu lliniaru'n effeithiol. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/01/2024